DPD yw prif gludydd parseli B2C domestig y Deyrnas Unedig, gyda thîm o 22,000 yn dosbarthu dros 350 miliwn o barseili bob blwyddyn. Mae hyn yn golygu ein bod yn rhan allweddol o'r diwydiant trafniadaeth, sy'n cyfrif ar hyn o bryd am ryw chwarter o allyriadau CO2 blyneddol y Deyrnas Unedig. Rydym yn cymryd ein rôl yn y broses o ddatgarboneiddio'r Deyrnas Unedig o ddifri, ac yn cefnogi'n llawn Gynllun Gweithredu'r Pwyllgor ar gyfer cynyddu a gwella seilwaith gwefru Cerbydau Trydan (EV) y wlad.

Fel cwmni, mae DPD yn cymryd camau pendant i ddatgarboneiddio ei weithrediadau, gan ganolbwyntio'n bennaf ar ddinasoedd lle mae argaeledd seilwaith gwefru cerbydau trydan yn caniatáu symud yn llwyr oddi wrth faniau sy'n rhedeg ar betrol a diesel. Rhoddwyd strategaeth 'Gweledigaeth 30' ar waith sy'n ymrwymo i sicrhau bod dosbarthu mewn 30 o ddinasoedd ar draws y Deyrnas Unedig yn gyfangwbl sero net erbyn diwedd 2023.

Yng Nghaerdydd, er enghraifft, mae gan DPD 205 o faniau gweithredol ar hyn o bryd, 71 ohonynt yn rhai trydan. Bydd 24 o faniau trydan eraill mewn cylchrediad y flwyddyn nesaf, i sicrhau gwasanaeth trydan llwyr yn y ddinas cyn gynted â phosibl. Rydym ni'n amcangyfrif y bydd ein strategaeth cerbydau trydan trosfwaol yn y Deyrnas Unedig yn dosbarthu 100m o barseili â faniau trydan yn 2023, o gymharu ag 1.3m yn unig yn 2019, ac rydym am i'n gyrwyr ledled Cymru chwarae rhan allweddol wrth gyflawni hyn.

Prif bryder ein cwmni, a amlygir yn yr adrannau perthnasol isod, yw'r oedi wrth ehangu seilwaith gwefru cerbydau trydan cyhoeddus y Deyrnas Unedig. Yng Nghaerdydd, dim ond 25 o safleoedd gwefru sy'n addas i faniau sydd ar gael i'r trigolion ar hyn o bryd, ac mae hynny'n cynnwys llawer o yrwyr DPD sy'n prydlesu eu faniau gyda'n cefnogaeth ni. Rhaid i wella'r

ddarpariaeth fod yn brif flaenoriaeth i'r llywodraeth ganolog a lleol wrth symud ymlaen, er mwyn sicrhau bod modd i'r sector dosbarthu ddatgarboneiddio'n gyflym.

Mae datgarboneiddio trafndiaeth mewn trefi a dinasoedd ar draws y Deyrnas Unedig o'r pwys mwyaf i DPD, yn enwedig yn y rhai lle rydym wedi penderfynu mynd y tu hwnt i'r hyn a fynnir gan awdurdodau er mwyn cyflwyno gwasanaeth heb allyriadau. Ein nod yw sicrhau bod modd i ddinasyddion ar draws Cymru a'r Deyrnas Unedig fyw mewn dinasoedd a chymunedau gwledig sy'n wyrddach, lle mae'r aer yn lanach, a lle mae modd dosbarthu parseli'n gyflym mewn modd sy'n llesol i'r amgylchedd.

Gobeithiwn fod y cyflwyniad hwn yn dangos bod gennym lawer o arbenigedd a phrofiad i'w rhannu, a byddem yn hoffi cydweithio'n fwy â'r Senedd a Llywodraeth Cymru ar hyn wrth symud ymlaen. Byddai'n bleser cael cwrdd â chi i glywed rhagor o fanylion am eich cynlluniau datgarboneiddio trafndiaeth, a thrafod sut gallwn ni weithio'n effeithiol ar y cyd i gyflymu ymdrechion o ran gwefru cerbydau trydan a mwy.

## **2. Beth yw eich barn am y cynnydd a wnaed yn erbyn Cam Gweithredu 1: Seilwaith gwefru?**

Fel y soniwyd uchod, mae'r oedi wrth ehangu seilwaith gwefru cerbydau trydan cyhoeddus y Deyrnas Unedig yn bryder dilys i'n cwmni. Rydym wedi ymgynghori â'r llywodraeth ar y mater hwn, ac yn cefnogi'r cynnydd parhaus mewn cyllid i ehangu'r rhwydwaith yn ystod y blynyddoedd nesaf, gan gydnabod ar yr un pryd bod angen llawer mwy. Rydym ni'n parhau i roi pwysau ar y Llywodraeth Ganolog am fwy o gyllid i Awdurdodau Lleol, er mwyn sicrhau seilwaith gwefru cynhwysfawr.

Mae'r rhan fwyaf o'n gyrwyr yn dewis bod yn hunangyflogedig. Er mwyn eu galluogi i ddsbarthu eitemau mewn modd sero net, mae DPD yn rhoi'r gefnogaeth angenrheidiol iddyn nhw yrru cerbydau trydan sydd ar brydles oddi wrthym ni. Er ein bod yn darparu grantiau ar gyfer y rhai sy'n gallu gosod pwyntiau gwefru gartref, nid yw hynny'n bosibl i lawer o yrwyr oherwydd diffyg lle, ac o ganlyniad maent yn dibynnu ar y seilwaith cyhoeddus yn eu hardal, fel y trigolion eraill. O'r herwydd, mae angen mynediad arnyn nhw at seilwaith gwefru mewn ardaloedd preswyl, a seilwaith gwefru cyhoeddus amhreswyl y gallent ei ddefnyddio ar eu teithiau dosbarthu ac oddi cartref.

Dylid ceisio sicrhau nad oes rhaid i unrhyw yrwyr proffesiynol sydd â'u bryd ar yrru cerbyd trydan ddewis peidio â gwneud hynny oherwydd sut neu ble maen nhw'n byw. Mae angen sicrhau, felly, bod adeiladu mwy o hybiau trydan ar draws rhwydwaith ffyrdd Cymru yn flaenoriaeth allweddol, gan y byddai hynny'n caniatáu defnyddio cerbydau hwy a thrymach ar deithiau hwy, gan fod cwmpas y fersiynau trydan o'r mathau hyn o gerbydau yn gyfyngedig. Er bod hwn yn fater y mae angen ei ddatrys ar gyfer gyrwyr preifat a gyrwyr cerbydluoedd, mae'r olaf yn defnyddio'u cerbydau mewn modd sy'n ddramatig o wahanol. Yn ôl amcangyfrifon yn 2020, mae gyrwyr cerbydlu yn gwneud cymaint â chwe gwaith y nifer o filltiroedd bob blwyddyn, gan deithio rhyw 70 milltir y dydd yn olynol ar draws yr wythnos waith. Mae hynny'n galw am wefru dros nos o bwyntiau gwefru pwerus mewn amgylchedd diogel.

Rydym ni'n ymwybodol iawn bod costau sylweddol ynghlwm wrth ehangu'r seilwaith gwefru. Yn ein canolfannau, mae cost gosod cyfarpar gwefru addas yn £750,000 o leiaf, o gymharu â gosod tanc diesel am ryw £50,000. Serch hynny, rydym yn gweithio'n galed i uwchraddio ein seilwaith yn gyflym, ond rydym yn boenus o ymwybodol na fydd hynny o gymorth i yrwyr hunangyflogedig nad ydynt yn byw'n agos at ein canolfannau.

## **3. Beth yw eich barn am y cynnydd a wnaed yn erbyn Cam Gweithredu 2: Optimeiddio'r ddarpariaeth ynni?**

Mae DPD yn cydnabod pwysigrwydd gwella'r ddarpariaeth ynni fel cam cyntaf a fydd yn caniatáu ehangu'r seilwaith gwefru cerbydau trydan yn gyflym, ac mae'n cefnogi'r syniad y dylai llywodraeth ganolog a lleol gydweithio'n agos â Gweithredwyr y Rhwydwaith Dosbarthu a darparwyr pwyntiau gwefru ar hyn. Fodd bynnag, ymddengys yr amserlen arfaethedig, "o fewn rhyw 2 flynedd yn fras", ar gyfer sefydlu grŵp Cysylltiadau a fydd yn dod â'r cymeriadau hyn ynghyd yn hir o ystyried graddfa'r her a'r targedau datgarboneiddio trafndiaeth a bennwyd gan y Llywodraeth a chan gymeriadau mwy uchelgeisiol yn y sector dosbarthu a thrafnidiaeth.

#### **4. Beth yw eich barn am y cynnydd a wnaed yn erbyn Cam Gweithredu 3: Gwella'r ddarpariaeth gwefru chwim?**

Mae DPD yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno darpariaeth gwefru chwim bob 20 milltir ar hyd rhwydwaith cefnffyrdd strategol Cymru erbyn 2025. Mae hyn yn arbennig o bwysig i hwyluso'r pontio i gerbydau trydan ar draws ardaloedd gwledig Cymru, nad yw'n bosibl ar hyn o bryd oherwydd y diffyg seilwaith effeithlon addas ar gyfer teithiau hwy sy'n gysylltiedig â dosbarthu mewn ardaloedd gwledig.

Yng nghyswllt Caerdydd, sef yr unig leoliad y bernir ar hyn o bryd ei fod yn addas ar gyfer symud yn gyffredinol i gerbydau trydan, mae gan DPD 71 o gerbydau sy'n rhedeg ar drydan. Er bod rhai gyrwyr wedi cael eu cynorthwyo i osod gwefrwyr yn eu cartrefi, nid yw hynny'n opsiwn i lawer ohonynt, ac o ganlyniad maent yn dibynnu ar seilwaith cyfredol y ddinas, sy'n cynnwys 25 o wefrwyr >50kw yn unig.

Byddem ni'n croesawu'n fawr gyfle i weithio gyda Trafnidiaeth i Gymru ar oruchwylio'r gwaith i ehangu gwefru chwim, a rhannu data manylach ynghylch y galw disgwylidig wrth symud ymlaen.

#### **5. Beth yw eich barn am y cynnydd a wnaed yn erbyn Cam Gweithredu 4: Safonau ansawdd Cymru?**

Mae DPD yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar ddatblygiad safonau cenedlaethol arfaethedig Llywodraeth y Deyrnas Unedig o ran ansawdd y ddarpariaeth wefru, ac mae'n bendant o'r farn y dylai cyfleusterau ymyl y ffordd fod mor hygyrch â phosibl i bob gyrwr, gyda chyn lleied o amser gyrru â phosibl rhwng cyfleusterau.

Pwynt penodol nad yw'n cael digon o sylw, yn ein barn ni, yw'r un ynghylch platfformau talu mewn mannau gwefru a hybiau ar draws y Deyrnas Unedig. Mae system ddarniog ac anghyson wrth dalu am wefru cerbydau trydan yn ymffurfio yn y Deyrnas Unedig, ac mae perygl y bydd

hynny'n cymhlethu'r defnydd o gerbydau trydan at ddibenion masnachol oherwydd na fydd gyrwyr yn gallu talu'n ddidrafferth am eu gwefru ym mhob un o'r pwyntiau gwefru trydan.

Mae diffyg gwybodaeth ynghylch a fydd eich cerbyd yn gydnaws â'r pwynt gwefru agosaf yn anochel yn creu pryder ynghylch cwmpas, a gall estyn teithiau ac oriau gwaith gyrwyr sy'n gorfod mynd heibio i sawl hwb gwefru er mwyn cael hyd i un sy'n cyfateb i'w hanghenion. O ystyried hyn, mae DPD yn cytuno â rhannau helaeth o'r sector dosbarthu a logisteg bod angen system filio ganolog ar gyfer gweithrediadau masnachol, fel bod taliadau busnes yn gallu bod mor ddidrafferth â phosibl.

## **6. Beth yw eich barn am y cynnydd a wnaed yn erbyn Cam Gweithredu 5: Hwyluso rheoleiddiol?**

Mae DPD yn cefnogi'n llawn gynllun Llywodraeth Cymru i adolygu rheoliadau adeiladu i gefnogi darparu gwefru yn y cartref a'r gweithle ledled Cymru, a hynny yn achos prosiectau adnewyddu ac adeiladu o'r newydd.

## **7. Beth yw eich barn am y cynnydd a wnaed yn erbyn Cam Gweithredu 6: Partneriaeth a chydweithio?**

Mae cydweithio rhwng y llywodraeth a'r sector preifat yn hanfodol bwysig i gyflymu'r gwelliant yn seilwaith gwefru cerbydau trydan y Deyrnas Unedig. Mae DPD yn cefnogi'n llawn yr ymgyrch i sefydlu gweithgor Gweithredwyr Pwyntiau Gwefru gyda'r nod hwn mewn golwg, a byddai wrth ei fodd yn cymryd rhan pan fo hynny'n addas er mwyn sicrhau bod anghenion y sector dosbarthu yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau, a bod cwmnïau fel ninnau yn cyfrannu at wella'r seilwaith cerbydau trydan yng Nghymru.

## **8. Beth yw eich barn am y cynnydd a wnaed yn erbyn Cam Gweithredu 7: Cynyddu ymwybyddiaeth gyhoeddus?**

Mae DPD yn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru yng nghyswllt ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r seilwaith gwefru cerbydau trydan ledled Cymru, gan y bydd hynny'n helpu'r cyhoedd i ddeall gwefru cerbydau trydan. Mae angen gweld y symudiad at gerbydau trydan fel prosiect cenedlaethol sy'n cynnwys gyrwyr preifat a'r rhai sy'n defnyddio cerbydau i weithio yn y sector trafndiaeth a dosbarthu.

Yn achos DPD yn benodol, mae'n bwysig cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o sefyllfa mwyafrif o'n gyrwyr yng nghyswllt defnyddio'r seilwaith gwefru cerbydau trydan, yn arbennig pwyntiau gwefru ar y stryd mewn dinasoedd fel Caerdydd. Fel y soniwyd uchod, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn hunangyflogedig trwy ddewis, ac yn cael cefnogaeth DPD i ddarparu gwasanaeth



dosbarthu sero net trwy brydlesu cerbydau trydan oddi wrthyn ni. Er ein bod yn darparu grantiau ar gyfer y rhai sy'n gallu gosod pwyntiau gwefru gartref, nid yw hynny'n opsiwn i lawer o yrwyr oherwydd diffyg lle, felly maent yn dibynnu ar y seilwaith cyhoeddus yn eu hardal, fel unrhyw breswlydd arall. O ganlyniad, mae angen iddyn nhw gael mynediad at bwyntiau gwefru mewn amrywiol leoedd sydd hefyd yn cael eu defnyddio gan yrwyr preifat cerbydau trydan, ac yn y gorffennol mae hynny wedi arwain at ymateb negyddol, oherwydd nad oes cyflenwad digonol o bwyntiau gwefru i ateb y galw yn y rhan fwyaf o'r Deyrnas Unedig.

## **9. Beth yw eich barn am y cynnydd a wnaed yn erbyn Cam Gweithredu 8: Annog cyfleoedd i fuddsoddi ac arloesi?**

Mae DPD yn cytuno bod angen mwy o ymchwil a datblygu i gyflymu dichonoldeb dosbarthiadau sydd yn defnyddio trydan 100% o amgylch y Deyrnas Unedig yn y dyfodol.

Maes blaenoriaeth yw gwella technoleg batrioedd i fwyafu cwmipas a hyd oes cerbydau trydan unigol. Mae amser gwefru nodweddiadol fan drydan dros 6 awr, sy'n golygu y bydd sawl cerbyd yn segur ar unrhyw adeg benodol, fel bod angen cerbydluoedd mwy o faint a phwyntiau gwefru ychwanegol, a pho gyflymaf rydych chi'n gwefru cerbyd trydan, a pho amlaf, cyflymaf bydd y batrioedd yn treulio. Mae hynny'n golygu, os bydd amllder a hyd teithiau'n cynyddu, y bydd hyd oes pob cerbyd yn gostwng, gan greu mwy o gostau. Bydd buddsoddiad gan y Llywodraeth mewn arloesedd ynghylch oes cerbydau a batrioedd yn cael effaith sylweddol, estynedig.

## **10. Beth yw eich barn am y cynnydd a wnaed yn erbyn Cam Gweithredu 9: Creu synergedd?**

Mae DPD yn cefnogi'n llawn ystyried seilwaith gwefru ym mhob cynllun datblygu rhanbarthol a lleol perthnasol, yn rhai newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg. Fel y soniwyd uchod, mae angen llawer o waith o hyd i hwyluso defnydd o gerbydau trydan mewn ardaloedd gwledig yn benodol, felly byddai unrhyw fentrau sy'n gallu helpu i ddarparu pŵer a phwyntiau gwefru i gymunedau y tu allan i ddinasoedd, gan gynnwys busnesau, yn cael eu croesawu'n fawr. Mae hyn yn cynnwys nodi synergeddau traws-sector trwy gyfleoedd i greu lleoedd o amgylch gwasanaethau lleol a manwerthu ar y stryd fawr.

## **11. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud o fewn cwmipas yr ymchwiliad hwn?**

Mae DPD o'r farn bod ymgynghoriadau fel hwn yn rhan o ymgysylltu parhaus, uchelgeisiol, sydd â ffocws ar ganlyniadau rhwng y llywodraeth a'r sector preifat, ac mae'n croesawu elfennau yn y Cynllun Gweithredu sy'n ceisio cyflawni hyn. Fel cwmni, mae gennym ni lawer o brofiad ac

arbenigedd i'w rhannu yn y maes hwn, a byddem ni'n hoffi gweithio'n fwy ar hyn ochr yn ochr â chi wrth symud ymlaen. Byddai'n bleser cwrdd â chi i glywed rhagor o fanylion am gynlluniau datgarboneiddio trafndiaeth ehangach y Pwyllgor, a thrafod sut gallwn ni gydweithio'n effeithiol i gyflymu ein hymdrechion

# Eitem 3

Gwefru cerbydau trydan | Electric vehicle charging:

EVC1 - Ymateb gan Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru | Evidence from the Welsh Government and Transport for Wales

## **Strategaeth a Chynllun Gweithredu Gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer Cymru Adroddiad Cynnydd – Rhagfyr 2022**

### **Cyflwyniad**

Ym mlwyddyn gynta'r Strategaeth a Chynllun Gweithredu Gwefru Cerbydau Trydan, rydyn ni yn Llywodraeth Cymru wedi bod yn canolbwyntio ar sut i roi'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu ar waith, wrth i ni brysuro'r gwaith o ddarparu'r seilwaith gwefru cerbydau trydan ledled Cymru. Un o brif elfennau'r gwaith hwn yw ystyried y dadleuon o blaid ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru i wneud y mwyaf o botensial y farchnad gwefru cerbydau trydan.

Rydyn ni wedi cydweithio'n glos â Trafnidiaeth Cymru, Awdurdodau Lleol a'r sector preifat i ddechrau darparu sylfaen o seilwaith yng Nghymru, ac i nodi cyfleoedd yn y dyfodol all diwallu anghenion gwefru gwahanol gan sicrhau bod digon o seilwaith gwefru i roi'r un cyfle i bawb a chreu profiad difwlch a dymunol i bob defnyddiwr.

### **Y Farchnad Gwefru Cerbydau Trydan yng Nghymru**

Ym mis Medi 2022, roedd 13,000 o gerbydau trydan batri (CTBau) trwyddedig yng Nghymru, sef tua 1% o'r holl geir yn y wlad. CTBau yw tua 12-13% o'r holl geir newydd a werthir yng Nghymru<sup>1</sup>.

Mae 1,417 o fannau gwefru yng Nghymru,<sup>2</sup> 1 man gwefru ar gyfer pob 9 CTB<sup>3</sup>. Y ffigur yn y Deyrnas Unedig (DU) gyfan yw 1 man gwefru ar gyfer pob 16 CTB.

Ers i ni yn Llywodraeth Cymru gyhoeddi ein Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan yn 2021, mae'r seilwaith gwefru sydd wedi'i osod hefyd wedi cynyddu yng Nghymru o 21 o fannau gwefru fesul 100,000 o drigolion (daw'r data yn y Strategaeth o Fehefin 2020) i 39 o fannau gwefru fesul 100,000 o drigolion – newid o ryw 666 o fannau gwefru ym Mehefin 2020 i 1,222 ym mis Medi 2022, twf o ryw 84%.

Bydd angen buddsoddi llawer iawn o arian i gwrdd â'r lefelau a ragwelir o ddefnydd a galw am gerbydau trydan, yn enwedig yn sgil y cynnig i wahardd cerbydau â pheiriannau tanio mewnol (PTM) ac ymlaen i'r 2030au.

---

<sup>1</sup> Ystadegau Trwyddedu Adran Drafnidiaeth y DU (veh0132)

<sup>2</sup> Zap-Map.com

<sup>3</sup> Ystadegau dyfeisiau gwefru cerbydau trydan – Adran Drafnidiaeth y DU

## **Cynllun Gweithredu: Cynnydd o safbwynt y 9 cam gweithredu**

### **Canlyniad 1: Darpariaeth wefru gyfan**

#### **Cam Gweithredu 1: Seilwaith gwefru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi ychydig dros £26 miliwn i ddarparu seilwaith gwefru mewn manau cyhoeddus yng Nghymru ers 2019.

Gyda'i gilydd mae Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru (TrC) wedi neilltuo arian a rhoi arweiniad a chymorth technegol i awdurdodau lleol i ddarparu Mannau Gwefru ar y Stryd ac mewn Cyrchfannau ledled Cymru. Rydyn ni wedi gweithio'n glos hefyd â'r Swyddfa Cerbydau heb Allyriadau (OZEV) i hyrwyddo'u cynlluniau grant i awdurdodau lleol ar gyfer gosod manau gwefru; bydd ein hymyrraeth yn helpu 18 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru i ddarparu gwerth tua £3 miliwn o seilwaith gwefru ar y stryd ledled Cymru ym mlwyddyn ariannol 2022-23 gan sbarduno bron £2.5 miliwn o arian gan Lywodraeth y DU i Gymru.

Mae'r prosiectau hyn yn targedu seilwaith gwefru mewn manau cyhoeddus allweddol ledled Cymru a byddant yn hyrwyddo'r newid i gerbydau trydan. (EV)

#### **Cam Gweithredu 2: Optimeiddio'r ddarpariaeth ynni**

Mae Llywodraeth Cymru, TrC ac awdurdodau lleol yng Nghymru wedi bod yn cydweithio â Gweithredwyr y Rhwydwaith Dosbarthu (Scottish Power Energy Networks (SPEN) a'r Grid Cenedlaethol) i sicrhau bod cymaint o bŵer ar gael ar gyfer gwefru cerbydau trydan â phosibl.

Mae'r Grid Cenedlaethol a SPEN wedi defnyddio cyllid yr Adferiad Gwyrdd gan Ofgem i gryfhau rhai rhannau o'u rhwydwaith. Sail y Grid Cenedlaethol dros eu dewis o safleoedd ledled y De oedd eu bod yn agos i Rwydwaith Ffyrdd Strategol Cymru (SRN) ac i is-orsafoedd allweddol gan wneud y cysylltiadau â'r rhwydwaith trydan yn fwy cost-ffeithiol. Er bod SPEN wedi gwneud hyn hefyd, maen nhw wedi gweithio'n agos â ni i ddewis 17 o gysylltiadau trydanol hyd at 1MVA (amperau megafolt) ledled Rhanbarth y Gogledd yn benodol ar gyfer gwefru cerbydau trydan. £100k yr un yw gwerth y cysylltiadau hyn ar gyfartaledd. Mae'r cysylltiadau wedi'u dewis i ddarparu rhwydwaith o orsafoedd gwefru chwim, hynny ar draws y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol ac wedi'u lleoli fel arfer wrth gyffyrdd. Mae ffordd SPEN o fynd ati wedi bod yn llwyddiannus, gan sbarduno'r sector preifat i fuddsoddi mewn seilwaith gwefru chwim ar gyfer cerbydau trydan ym mhob un o'r 17 safle.

Mae Llywodraeth Cymru a TrC wedi cydweithio hefyd gyda'r Gweithredwyr Rhwydwaith Ardal (DNOs) i ddatblygu offer sy'n modelu'r rhwydwaith trydan a'i gyfyngiadau ac i helpu i nodi'r manau hynny yn y grid lle byddai buddsoddi'n fwyaf tebygol o arwain at wella cyfleoedd yn sylweddol ar gyfer datblygu seilwaith cerbydau trydan.

Gan edrych tua'r dyfodol, rydym am greu grŵp cysylltiadau all helpu i gynyddu eto'r pŵer sydd ar gael ar gyfer gwefru cerbydau trydan; a helpu i wireddu'r manteision sy'n cael eu disgrifio yn y Cynllun Gweithredu.

### Cam Gweithredu 3: Gwella'r ddarpariaeth gwefru chwim

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi bod yn arwain prosiect i ddarparu manau gwefru chwim ar gyfer cerbydau trydan ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol. Mae'n brosiect sy'n bartneriaeth unigryw. Caiff y rhwydwaith o fannau gwefru ei ariannu'n fasnachol yn bennaf ond y defnyddir cyllid cyhoeddus i 'ddatgloi' safleoedd lle ceir cyfyngiadau difrifol trwy ariannu gwaith DNO. Mae'r manau gwefru hyn yn yr ardaloedd lle bernir na fyddant yn debygol o allu elwa ar fuddsoddiad cwbl fasnachol yn y dyfodol agos i ganolig, ond sy'n hanfodol ar gyfer sicrhau darpariaeth gyson ar draws y Rhwydwaith Ffyrdd i wefru cerbydau trydan ar ganol eu taith i gyrchfannau ymwelwyr a chyrchfannau pwysig eraill ledled Cymru. Canolbwyntir hefyd ar safleoedd sy'n eiddo cyhoeddus, gan ddod â'r fantais ychwanegol o ddarparu incwm bychan o'r lês oddi wrth gwmnïau manau gwefru. Mae safleoedd wedi'u dewis yn ofalus hefyd yn ôl y cyfleusterau sydd gerllaw, gan gynnwys eu gallu i ddod â manteision i fusnesau lleol a'r sector lletygarwch. Pan gwblheir y prosiect hwn yn chwarter cyntaf 2023, bydd manau gwefru chwim o leiaf bob 25 milltir ac ar y rhan fwyaf o'r rhwydwaith, bob 20 milltir ledled Cymru – hynny ddwy flynedd o flaen targed y Cynllun Gweithredu.

Mae'r seilwaith gwefru gofynnol hwn ar draws SRN Cymru yn gam mawr at roi'r hyder i ddefnyddwyr allu gyrru ledled Cymru heb redeg allan o drydan.

### **Canlyniad 2: Deilliannau Ansawdd**

#### Cam Gweithredu 4: Datblygu safonau ansawdd i Gymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu arbenigwyr allanol i ddatblygu Safonau Cenedlaethol ar gyfer Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan yng Nghymru. Mae'r canllaw ar-lein yn disgrifio cyfres o argymhellion arfer gorau ar gyfer manau gwefru cyhoeddus diogel, hygyrch, a dibynadwy yng Nghymru. Datblygwyd y Safonau i'w defnyddio gan sefydliadau'r sector cyhoeddus, mentrau cymunedol a phartneriaid cyflenwi sy'n gysylltiedig â darparu seilwaith gwefru cerbydau trydan yng Nghymru. Oni dywedir yn wahanol, nid yw'r argymhellion a nodir yn y Safonau Cenedlaethol yn rhai sy'n rhwymo'n gyfreithiol. Yn hytrach, maen nhw wedi'u datblygu i fod yn ganllaw arfer gorau i helpu Cymru tuag at ei thargedau carbon sero-net.

Mae'r argymhellion yn ymdrin â materion fel manylebau dylunio manau gwefru sy'n cynnwys cyflymder, gofynion cynllunio a mathau o blygiau, yn ogystal â lleoliad y man gwefru o fewn yr amgylchedd o'i gwmpas. Maent hefyd yn ymdrin hefyd â'r strydun, gan gynnwys hygyrchedd a diogelwch, anghenion o ran ynni a chysylltiadau, agweddau gweithredol, caffael ac ystyriaethau a ddaw i'r amlwg nawr ac yn y dyfodol. Maen nhw'n esbonio sut i osgoi rhwystro llwybrau cerdded a diogelu llwybrau teithio. Deallir na fydd pob argymhelliad yn berthnasol i bob sefyllfa gan y bydd gofyn i bob man gwefru ymateb i anghenion ac amgylchiadau lleol, yn ogystal ag i fframweithiau

polisi rhanbarthol a chenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r Safonau Cenedlaethol yn ymdrech i sicrhau, wrth symud ymlaen, bod holl ddefnyddwyr cerbydau trydan yng Nghymru yn hyderus bod seilwaith gwefru ar gael iddynt lle bynnag a phryd bynnag y bydd ei angen.

Bydd y canllaw yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn ystod yr wythnosau nesaf.

### Cam Gweithredu 5: Hwyluso rheoleiddio'r seilwaith

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgynghori ar ddiwygiadau drafft i Reoliadau Adeiladu yn ystod hanner cyntaf 2023. Bydd y diwygiadau drafft yn golygu bod rhaid darparu manau gwefru cerbydau trydan ar gyfer pob annedd newydd sydd â man parcio cysylltiedig ac un man gwefru a ffos chebl ychwanegol wrth bob adeilad dibreswyl newydd sydd â mwy na 10 lle parcio.

Byddwn ni hefyd yn gweithio gyda'r diwydiant trydan i gynnal adolygiad pellach o bolisiau a rheoliadau Llywodraeth Cymru er mwyn cefnogi seilwaith gwefru cerbydau trydan. Bydd hyn yn cynnwys ystyried unrhyw fesurau pellach y gellir eu cymryd i gefnogi cynlluniau gofodol lleol a rhanbarthol a fframwaith ar gyfer cynlluniau datblygu strategol a lleol. Cynhelir adolygiad o'r hawliau Datblygu a Ganiateir er mwyn i ddiwydiant allu eu dilyn a mynd i'r afael ag unrhyw anghysondebau o ran rheoli datblygu neu'r ffordd y caiff ei gymhwyso ar draws y DU. Bydd angen trafod a chydweithio parhaus ag awdurdodau cynllunio lleol i'w helpu i ddatblygu atebion lleol.

### Cam Gweithredu 6: Partneriaeth a chydweithio

Er mwyn gallu rhoi'r seilwaith gwefru cerbydau trydan ar waith yn gyflym ledled Cymru, rhaid wrth gydweithrediad a chyfraniad amrywiaeth o randdeiliaid, o Weithredwyr Mannau Gwefru (CPOs) i drigolion. Rydym yn bwriadu datblygu cynllun cyfathrebu a rheoli rhanddeiliaid ar lefel rhaglen.

Mae maint a chymhlethdod y Cynllun Gweithredu yn golygu bod angen cynllun cyflawni cryf ac effeithiol sy'n nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid cyflenwi yn cynnal ac yn rheoli'r rhaglen seilwaith gwefru cerbydau trydan. Am hynny, yn y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom fuddsoddi adnoddau i nodi'r camau allweddol ar gyfer datblygu'r cynllun cyflawni, sy'n cynnwys trafod â'r farchnad CPOs i helpu i nodi ymyriadau tebygol y sector cyhoeddus, a ffurfio gweithgor sector cyhoeddus-preifat. Rydym yn bwriadu sefydlu grŵp gweithredwyr manau gwefru, fel y'i disgrifir yn y Cynllun Gweithredu, o fewn y chwe mis nesaf.

Mae disgwyl mai'r sector preifat fydd yn buddsoddi fwyaf i ddarparu manau gwefru yng Nghymru; ond nid oes gennym lawer o wybodaeth am gynlluniau penodol y sector preifat. Mae rhywfaint o drafod wedi digwydd, ond mae angen i ni wybod faint o fannau gwefru y bydd y sector preifat yn eu darparu, ble ac erbyn pryd.

Ym mis Tachwedd 2022, cynhaliodd Llywodraeth Cymru a TrC weithdy gyda gweithredwyr manau gwefru i drafod sut y gall y sector cyhoeddus a'r sector preifat

gydweithio'n well â'i gilydd i gyflawni. Edrychwyd ar sut i osgoi dyblygu ymdrech ac i'r sector cyhoeddus ddeall yr amodau a all hwyluso buddsoddiad a rhagweld lle mae buddsoddiad masnachol yn fwyaf tebygol o ddigwydd. Yn dilyn y gweithdy, cafwyd deialog fanwl â chwmnïau unigol yn y diwydiant ynghylch "rhoi profion meddal" ar gamau a chymhorthion posibl y gellir eu darparu i gasglu gwybodaeth am y farchnad ac i rannu data ar gyfleoedd a chyfyngiadau.

Desg Gwasanaethau Gwefru Cerbydau Trydan: Mae TrC wedi dechrau ar y gwaith o bwysu a mesur desg gwasanaethau mewnol i hybu pob agwedd ar ddarparu a rheoli manau gwefru cerbydau trydan. Credwn fod cyfle da ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat i gynnal set integredig a chyson o wasanaethau cymorth all ymdrin â gwasanaethu cwsmeriaid a gosod, cynnal a chadw a rheoli manau gwefru, gan leihau'r rhwystrau i'w darparu. Gallai darparu'r gwasanaethau hyn yn ei dro greu cyfleoedd i drydydd partïon gan gynnwys busnesau bach a chanolig a'r trydydd sector.

### **Canlyniad 3: Buddion Lleol**

#### Cam Gweithredu 7: Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd

Er mwyn gallu rhoi'r seilwaith gwefru cerbydau trydan ar waith yn gyflym ledled Cymru, rhaid wrth gydweithrediad a chyfraniad amrywiaeth o randdeiliaid, o Weithredwyr Mannau Gwefru (CPOs) i drigolion. Rydyn ni'n ymwybodol bod angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu cynllun clir i ymgysylltu a chyfathrebu â'r cyhoedd, yn enwedig gan mai un o amcanion craidd y Strategaeth yw codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r seilwaith gwefru ledled Cymru.

Bydd angen gweithio gyda'r sector cyhoeddus a phreifat i ddiweddarau'r cyhoedd am y graddau y rhoddir y Strategaeth ar waith; i wneud y negeseuon a'r cydweithio yn fwy cydlynol yng nghyd-destun datgarboneiddio; i ddarparu gwybodaeth annibynnol i ddefnyddwyr i gefnogi'r newid i gerbydau trydan; i gefnogi perchnogion cerbydau preifat a darparwyr a busnesau cludiant cymunedol a sector cyhoeddus a rennir; ac i ymgysylltu â'r cyhoedd ehangach i annog ymddygiadau cynaliadwy.

Mae'r seilwaith gwefru yn cynnig cyfle hollbwysig i drawsnewid y ffordd y mae pobl yn teithio wrth i ni fynd at ddatgarboneiddio. Ein nod yw gweithio mewn partneriaeth â'r sectorau preifat a chyhoeddus, i ddatblygu strategaeth gyfathrebu sy'n darparu gwybodaeth gyson, dryloyw a hygyrch i ddefnyddwyr a'r cyhoedd.

#### Cam Gweithredu 8: Annog arloesedd a chyfleoedd i fuddsoddi

Er mwyn helpu awdurdodau lleol i ddarparu seilwaith gwefru, rydym yn cydnabod bod angen model caffael seilwaith gwefru sy'n benodol Gymreig. Mae'r fframwaith caffael sy'n cael ei gynnig yn cael ei ddatblygu a'i reoli gan Lywodraeth Cymru ac mae'n rhoi'r cyfle i gydweithio ar draws sector cyhoeddus Cymru i sicrhau model cyflawni safonol gan osgoi ymarferion caffael ad-hoc. Disgwylir i'r Fframwaith fod yn barod yn gynnar yn 2023 a chynnwys tri lot: Lotiau 1 a 2 – Opsiynau Dylunio ac Adeiladu a Lot 3 – cynhyrchu adnewyddadwy a storio ynni. Bydd y Fframwaith yn helpu i ddod â buddion

ehangach i Gymru gan ganolbwyntio ar ansawdd a'r uchelgais i hybu arloesedd a gwneud y gorau o'r cyfleoedd y gall y gadwyn gyflenwi eu cynnig, gan gynnwys ar gyfer busnesau bach a chanolig lleol.

### Cam Gweithredu 9: Cynyddu synergeddau

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu offeryn i asesu'r cyfle i gydleoli ynni adnewyddadwy a seilwaith gwefru cerbydau trydan. Pwrpas yr offeryn hwn yw gwerthuso cyfleoedd i ddefnyddio ynni adnewyddadwy ar safleoedd gwefru. Ar gyfer safle penodol, bydd yr offeryn yn cymharu'r canlynol:

1. Cysylltu'r safle â'r grid trydan heb unrhyw ynni adnewyddadwy
2. Defnyddio canopi gwynt a solar gan allforio unrhyw ynni adnewyddadwy dros ben i'r grid
3. Defnyddio paneli solar ar y llawr a chanopi solar gan allforio unrhyw ynni adnewyddadwy dros ben i'r grid
4. Defnyddio canopi gwynt a solar gyda batri storio
5. Defnyddio paneli solar ar y llawr a chanopi solar gyda batri storio

Bydd yr offeryn cydleoli, sydd bellach wedi'i gwblhau, yn ein helpu i ddeall yn well y pwyntiau canlynol:

- Y mathau o safleoedd gwefru cerbydau trydan sydd fwyaf addas ar gyfer eu cydleoli ag ynni adnewyddadwy
- Y cyfluniadau ynni a storfeydd adnewyddadwy sydd fwyaf addas ar gyfer eu cydleoli gyda mannau gwefru cerbydau trydan
- Syniad manwl o gostau cymharol cydleoli
- Lle y gallai fod angen cymorth ariannol ychwanegol i gefnogi gosod safleoedd cydleoli

Mae buddion posibl i gynhyrchu ynni adnewyddadwy 'y tu ôl i'r meter' ar safleoedd gwefru cerbydau trydan, gan gynnwys cynhyrchu trydan di-garbon neu garbon isel i wefru cerbydau trydan, a lleihau'r galw ar rwydweithiau trydan, yn enwedig mewn ardaloedd o dan gyfyngiadau.

### Casgliadau'r Adroddiad Cynnydd

Bydd angen buddsoddi llawer iawn o arian eto mewn seilwaith gwefru cerbydau trydan i fodloni'r lefelau a ragwelir o ddefnydd a galw am gerbydau trydan. Ond rydyn ni yn Llywodraeth Cymru, ynghyd â TrC a'r awdurdodau lleol, wedi gwneud gwaith cynllunio a chwmpasu hanfodol ac wedi buddsoddi yn y flwyddyn gyntaf mewn seilwaith gwefru sydd wedi'i leoli'n strategol ar ôl cyhoeddi'r Strategaeth a'i Chynllun Gweithredu. Bydd ein camau gweithredu hyd yma yn rhoi'r sectorau cyhoeddus a phreifat mewn sefyllfa dda i brysuru'r gwaith o gyflwyno'r seilwaith gwefru.



Rydym yn credu bod gan Gymru gyfle i arwain drwy esiampl a helpu i adeiladu rhwydwaith seilwaith gwefru dibynadwy ac effeithlon, fydd yn trawsnewid y ffordd y mae trigolion ac ymwelwyr yn teithio. Rydym yn ymwybodol bod cyflawni'r nod hwn yn gofyn am reoli a llywodraethu cadarn ac effeithiol. Mae ein tasgau cyntaf ar gyfer y chwe mis nesaf yn cynnwys datblygu cynllun cyflawni manwl ar gyfer y 1-2 mlynedd nesaf, gan nodi'r llwybr critigol, y tasgau a'r gweithgareddau allweddol, yn ogystal â gofynion ariannu a cherrig milltir allweddol; trafod â sefydliadau cyhoeddus a phreifat i annog a helpu i brysuro'r gwaith o ddarparu'r seilwaith gwefru ar draws Cymru, a nodi ymyriadau tebygol y sector cyhoeddus; ffurfio gweithgor sector cyhoeddus-preifat; a sefydlu strwythur llywodraethu.

Byddwn ni'n sicrhau bod cynnydd yn cael ei fonitro a'i werthuso'n aml yn y tymor byr er mwyn bodloni nodau'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu. Bydd hyn yn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol i'r farchnad hon sy'n datblygu'n gyflym. Rydyn ni yn Llywodraeth Cymru a TrC a'r awdurdodau lleol, yn credu ein bod mewn sefyllfa wych i ymateb ac addasu'n gyflym i unrhyw heriau a chyfleoedd all ddod yn sgil twf y farchnad cerbydau trydan.

## EVC2 SP Energy Networks

Senedd Cymru | Welsh Parliament

Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith | Climate Change, Environment and Infrastructure Committee

Gwefru cerbydau trydan | Electric vehicle charging

Ymateb gan SP Energy Networks | Evidence from SP Energy Networks

### 1. Beth yw eich barn am y Cynllun Gweithredu?

SP Energy Networks yw perchennog a gweithredwr y rhwydwaith dosbarthu trydan yng ngogledd a chanolbarth Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam, Ceredigion a rhan o Bowys), Glannau Mersi, Swydd Gaer a Gogledd Swydd Amwythig (rhwydwaith SP Manweb) a Chanol a De'r Alban (rhwydwaith SP Distribution). Drwy'r rhwydwaith hwn o geblau tanddaearol, llinellau uwchben ac is-orsafoedd y mae ein 3.5 miliwn o gwsmeriaid yn cael cyflenwad trydan diogel, rhesymol a dibynadwy. Yng Nghymru, mae'r rhwydwaith dosbarthu hwn yn cefnogi 0.45 miliwn o gartrefi, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus bob diwrnod.

Rydym yn datblygu ein rhwydwaith er mwyn diwallu anghenion ein cwsmeriaid, gan ystyried unrhyw newid yn yr anghenion hyn. Cyn y gallwn ddiwallu anghenion cwsmeriaid, rhaid i ni ddeall yn gyntaf beth yw eu hanghenion – rydym yn gwneud hyn drwy greu rhagolygon [1] mewn senarios amrywiol tan 2050. Mae'r rhagolygon hyn yn dangos cynnydd sylweddol mewn cerbydau trydan yn yr ardal o Gymru a wasanaethir gennym (99k-284k erbyn 2030; 500k-703k erbyn 2050). O ganlyniad, rydym yn falch fod gan Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu i ddarparu'r seilwaith gwefru cerbydau trydan sydd ei angen i wneud hyn, gan gynnwys darpariaeth wefru ddigonol i'r cyhoedd er mwyn sicrhau nad yw pobl sydd heb gyfleusterau gwefru gartref yn cael eu gadael ar ôl.

Rydym hefyd yn falch fod Llywodraeth Cymru yn ein gweld ni fel rhanddeiliaid allweddol yn ei Chynllun Gweithredu a'i Strategaeth Cerbydau Trydan, oherwydd mae capasiti digonol ar ein rhwydwaith yn allweddol er mwyn gallu cyflwyno'r seilwaith gwefru cerbydau trydan fesul cam yng Nghymru. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru a gweithredwyr rhwydweithiau eraill er mwyn darparu rhwydwaith yn barod ar gyfer Sero Net. Bwriadwn

fuddsoddi dros £615 miliwn yn ein rhwydwaith dosbarthu trydan yng Nghymru yn RIIO-ED2 [2], gan gefnogi cannoedd o swyddi a galluogi datgarboneiddio gwres a thrafnidiaeth, sy'n hollbwysig er mwyn cyflawni targedau newid hinsawdd Cymru.

[1] Rhagolygon Senarios Dosbarthiad Ynni'r Dyfodol (DFES), ar gael yma:

[https://www.spenergynetworks.co.uk/pages/distribution\\_future\\_energy\\_scenarios.aspx](https://www.spenergynetworks.co.uk/pages/distribution_future_energy_scenarios.aspx)

[2] Caiff ein buddsoddiad yn y rhwydwaith ei reoleiddio gan Ofgem drwy system reoli prisiau. Ar 30 Tachwedd 2022 cawsom hysbysiad terfynol ynglŷn â'r buddsoddiad y caniateir i ni ei wneud (a'r cymhelliant cysylltiedig a'r gyfundrefn gosbau) ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2023 tan 30 Mawrth 2028. Cyfeirir at y cyfnod hwn a'r mecanwaith rheoli prisiau fel RIIO-ED2.

## **2. Beth yw eich barn am y cynnydd a wnaed yn erbyn Cam Gweithredu 1: Seilwaith gwefru?**

Fel Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu (DNO), nid yw rheoliadau fel arfer yn caniatáu i ni fod yn berchnogion ac yn weithredwyr manau gwefru cerbydau trydan; rydym yn cefnogi'r newid i drafndiaeth wedi'i thrydaneiddio drwy sicrhau bod y rhwydwaith trydan yn gallu darparu ar gyfer cysylltu technolegau carbon isel (LCT) megis gwefrwyr cerbydau trydan. Mae ein hymateb i Gwestiwn 3 yn rhoi enghreifftiau o sut rydym yn gwneud hyn.

## **3. Beth yw eich barn am y cynnydd a wnaed yn erbyn Cam Gweithredu 2: Optimeiddio'r ddarpariaeth ynni?**

Rydym yn croesawu thema gyffredinol Cam Gweithredu 2 ac yn cytuno bod DNOs yn hanfodol er mwyn darparu'r capasiti rhwydwaith trydan i allu cyflwyno gwefrwyr cerbydau trydan fesul cam. Rydym wedi amlinellu isod y prif feysydd rydym yn gweithio arnynt er mwyn optimeiddio'r ddarpariaeth ynni yng Nghymru a chefnogi cynnydd yn y defnydd o gerbydau trydan.

### **Newid yn y dirwedd ynni yng Nghymru**

Mae tirwedd y rhwydwaith yn newid yn gyflym. Wrth i gymdeithas ddatgarboneiddio i Sero Net, mae ein cwsmeriaid yn troi fwy a mwy at gerbydau trydan a phympiâu gwres. Rydym hefyd yn mynd i weld cynnydd pellach mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy i bweru'r rhain, mwy o gwsmeriaid yn cyfranogi'n weithredol yn y system ynni, a gweithredwr y system drydan (ESO) yn gorfod troi fwy a mwy at ddefnyddio darparwyr gwasanaeth sydd wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith dosbarthu. Bydd y newidiadau hyn yn arwain at fwy o ddefnydd o'r rhwydwaith, llif trydan mwy dynamig a chyfnewidiol, cynllunio a gweithredu rhwydwaith dosbarthu mwy cymhleth, a gwneud y system gyfan yn fwy rhyngweithiol.

## Sicrhau rhwydwaith â digon o gapasiti a gallu

Rhaid i ni ymateb i'r newidiadau hyn er mwyn diwallu anghenion ein cwsmeriaid, gan gofio bod yr anghenion hyn yn newid, galluogi Sero Net, a sicrhau bod y rhwydwaith dosbarthu a'r system ynni ehangach yn dal i weithio yn ddiogel, yn ddibynadwy ac yn effeithlon i'n cwsmeriaid.

Er mwyn darparu ar gyfer y cynnydd hwn mae angen i ni fuddsoddi yng nghapasiti a gallu ein rhwydwaith. Bydd cyfnod rheoli prisiau RIIO-ED2 (1 Ebrill 2023 tan 31 Mawrth 2028) yn hollbwysig yn y cyswllt hwn. Yn ystod cyfnod RIIO-ED2 byddwn yn buddsoddi £615 miliwn i greu'r capasiti a'r offer ychwanegol y mae ar ein cwsmeriaid eu hangen. Er enghraifft, yn ein hardal ni yng Nghymru:

- Buddsoddi ar draws yr holl lefelau foltedd er mwyn rhoi mwy o gapasiti i'n cwsmeriaid. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi yn y gwaith o adnewyddu dros 5,700 o wasanaethau yng nghartrefi ein cwsmeriaid, bron i 200km o gylchedau dosbarthu newydd, a 600 o is-orsafoedd er mwyn i gwsmeriaid gael y capasiti rhwydwaith y mae arnynt ei angen i wefru eu cerbydau trydan yn ddiogel.
- Defnyddio 135MW o wasanaethau hyblygrwydd mewn 241 o safleoedd i ohirio'r angen i atgyfnerthu, gan olygu bod y capasiti yn barod i gwsmeriaid yn gyflymach ac am gost is.
- Dros 2,000 yn fwy o fonitorau is-orsafoedd ac offer digidol newydd (gweler isod), er mwyn i ni allu gweld y rhwydwaith yn well a chael mwy o ddefnydd yn ddiogel o'r capasiti rhwydwaith presennol y mae cwsmeriaid wedi talu amdano yn barod.
- Buddsoddi yn ein hasedau er mwyn sicrhau bod ein rhwydwaith yn ddibynadwy ac yn gadarn, gan leihau toriadau trydan a thrwy hynny helpu i gynnal 'amser gweithredu' uchel i wefrwyr cerbydau trydan sydd wedi'u gosod.
- Mesurau amrywiol i ddarparu ar gyfer cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy, fel bod gwefrwyr cerbydau trydan yn cael eu pweru â thrydan carbon sero.
- Byddwn yn ymgymryd â chyfres o fuddsoddiadau yn RIIO-ED2 er mwyn hybu'r gwaith o ddatblygu marchnadoedd hyblygrwydd effeithlon, cydgysylltiedig a chystadleuol, fel bod cwsmeriaid sydd â gwefrwyr cerbydau trydan yn gallu cyfranogi'n fwy gweithredol yn y system ynni os dymunant.

Bydd y buddsoddiadau hyn ac eraill yn helpu i alluogi hyd at 250k o gerbydau trydan ar ein rhwydwaith yng Nghymru erbyn 2028.

Mae cefnogaeth barhaus Llywodraeth Cymru drwy gydol proses reoli prisiau RIIO-ED2, gan gynnwys ymgysylltu wrth i ni ddatblygu ein senarios DFES, wedi bod yn allweddol wrth ddangos gofynion cwsmeriaid trydan yng Nghymru a helpu i sicrhau'r buddsoddiad yr oedd ei angen.

### **Model digidol o'r rhwydwaith – ein Model Cynllunio Sero Net (ENZ)**

Mae Cam Gweithredu 2 yn cynnwys y nod o ddefnyddio modelu digidol. Rydym ar flaen y gad yn y maes hwn, ac rydym yn defnyddio nifer o offer rhag-weld a modelu datblygedig. Rydym wedi datblygu offeryn rhag-weld cerbydau trydan manwl iawn sy'n rhagfynegi pa gwsmeriaid fydd yn cael cerbydau trydan ac o fewn pa raddfeydd amser. Ar y cyd â'n hofferyn Platfform ENZ newydd [3], mae hyn yn golygu y gallwn ragfynegi'n well ble a phryd y bydd angen capasiti rhwydwaith yng Nghymru. Caiff y data rhag-weld hyn eu rhannu'n gyhoeddus, maent yn seiliedig ar fewnbwn gan randdeiliaid, ac yn sail i'n cynlluniau ar gyfer buddsoddi yn y rhwydwaith.

Un cyhoeddiad allweddol yw ein Cynllun Datblygu Rhwydwaith. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu'r galw dangosol a'r capasiti cynhyrchu sydd ar gael ym mhob prif is-orsaf, ac yn rhoi gwybodaeth am yr ymyriadau yr ydym yn eu cynllunio er mwyn cynyddu capasiti.

[3] Ein Platfform ENZ yw'r platfform dadansoddol sy'n ganolog i'n gwaith o gynllunio a datblygu'r rhwydwaith. Mae'n integreiddio ffynonellau data a oedd yn annibynnol o'r blaen (monitro'r rhwydwaith, mesuryddion clyfar, rhag-weld manwl, cyflwr asedau) â model digidol llawn o'n rhwydwaith. Mae hyn yn rhoi golwg seiliedig ar ddata ar yr hyn sy'n digwydd ar y rhwydwaith nawr, a beth fydd yn digwydd mewn graddfeydd amser cynllunio a gweithredu. Mae'n ein helpu i ddarparu'r capasiti y mae ar gwsmeriaid ei angen mewn pryd, gwneud penderfyniadau mwy effeithlon ynglŷn â buddsoddi, a gwneud gwell defnydd o gapasiti presennol y rhwydwaith.

### **Adferiad Gwyrdd – Gwefru cerbydau trydan yng Ngogledd Cymru**

Yn 2021, cymeradwyodd Ofgem fuddsoddiad gwerth £2 filiwn i ni er mwyn darparu seilwaith rhwydwaith i sicrhau 21MW o gapasiti gwefru cerbydau trydan ar 25 safle ar draws y rhwydwaith cefnffyrdd strategol yng ngogledd Cymru, mewn ardaloedd gwledig a threfol. Enghreifftiau o'r safleoedd hyn yw siop Ystad Rhug ar yr A5 yng Nghorwen, sydd ag 8 man gwefru chwim InstaVolt erbyn hyn, a man gwefru cerbydau trydan ger gorsaf drenau brysur Blaenau Ffestiniog.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio mewn cysylltiad agos â Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru fel rhan o'r Adferiad Gwyrdd i gyflawni'r rhaglen fuddsoddi hon, er mwyn creu capasiti trydan newydd i gefnogi'r broses o gyflwyno manau gwefru cerbydau trydan chwim.

Dechreuodd y gwaith yng ngwanwyn 2022 a disgwylir y bydd wedi'i gwblhau erbyn gwanwyn 2023.

Roedd y targedau a osodwyd ar ddechrau'r rhaglen yn uchelgeisiol iawn, ac ni fyddent yn bosibl oni bai am gydweithio agos rhwng y partïon. Mae'r gwaith hwn wedi trawsnewid y dirwedd gwefru cerbydau trydan yng Ngogledd Cymru a bydd yn creu buddion parhaus i'r trigolion.

Mae mwy o wybodaeth i'w gweld yn:

[https://www.spenergynetworks.co.uk/pages/green\\_recovery\\_investment\\_england\\_and\\_wales.asp](https://www.spenergynetworks.co.uk/pages/green_recovery_investment_england_and_wales.asp)  
x a

<https://www.ofgem.gov.uk/publications/decision-riio-ed1-green-recovery-scheme>

## Arloesi

Nod ein prosiect arloesi, Prosiect CHARGE, yw cyflymu'r newid i drafndiaeth wedi'i thrydaneiddio.

Mae Prosiect CHARGE wedi dadansoddi a chymharu capasiti'r rhwydwaith a rhagolygon ymddygiad gywyr cerbydau trydan a llif traffig disgwylidig. Mae'r data sy'n deillio o'r gwaith hwn yn dangos lleoliadau buddiol ar gyfer manau gwefru cerbydau trydan yn rhwydwaith SP Manweb, gan gynnwys yng Nghymru.

Fel rhan o'r prosiect, rydym yn lansio map rhyngweithiol a fydd yn dangos lleoliadau da ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith gwefru cyhoeddus i gwsmeriaid. Mae'r offeryn ar-lein rhyngweithiol sydd ar gael i'r cyhoedd (offeryn o'r enw ConnectMore, sydd ar hyn o bryd yn cael ei brofi a'i ddatblygu) yn rhaglen hawdd ei defnyddio ar y we sy'n dangos i ddefnyddwyr ble mae'r galw am wefru cerbydau trydan, a ble mae gan y rhwydwaith trydan gapasiti i gefnogi gosod manau gwefru.

Credwn y bydd y dull gweithredu cydgysylltiedig hwn, sy'n dod ag arbenigedd o feysydd trafndiaeth a'r rhwydwaith trydan at ei gilydd am y tro cyntaf, yn ein galluogi i rannu data er mwyn creu rhwydwaith a fydd yn diwallu anghenion gywyr cerbydau trydan yn ein hardal heddiw ac yn y dyfodol.

## Ymgysylltu Cydweithredol

Mae Cam Gweithredu 2 yn cynnwys Dangosydd Perfformiad Allweddol i sefydlu gweithgor cysylltiadau rhwng Llywodraeth Cymru, gweithredwyr manau gwefru, a gweithredwyr rhwydwaith. Rydym yn ymgysylltu'n helaeth â Llywodraeth Cymru, er enghraifft:

<p>Improve Newport to Pembrokeshire rail services by addressing the ‘dogleg’ in Swansea; completing the electrification of the South Wales mainline; developing Carmarthen as a railhead to provide more frequent trains across West Wales; and introducing a two-hourly service to Fishguard.</p>	<p>Rail infrastructure, such as the “dogleg” in Swansea and electrification of the South Wales Main Line, is a non-devolved reserved matter for the UK Government. We continue to make the case to UK Government for greater investment in rail infrastructure in Wales. The recent announcement of new services from Grand Union Trains and extension of Great Western Railway services to Carmarthen will increase journey opportunities. Transport for Wales are considering their service offer in West Wales including the potential for a two-hourly service to Fishguard.</p>
<p>Improve public transport services in North Wales by developing routes beyond the main transport corridor of Holyhead, Bangor, Conway, and Chester; developing East to West public transport routes, connectivity, and frequency; reopening the Bangor to Caernarvon railway line; and directing day visitor traffic to a public transport interchange where visitors continue their journey using public transport</p>	<p>The North Wales Transport Commission is examining public transport connectivity across all parts of North Wales, which includes rural as well as urban areas, to support people to make sustainable choices about the way they travel.</p> <p>In addition, the commitment within the Cooperation Agreement to improve public transport connectivity between north and south Wales, including protecting travel corridors, is being progressed in partnership with TfW.</p>

## Recommendation 22

Great British Railways should proceed based on parity of status for the UK and devolved governments.

### Response: Accept

Our response to the UK Government consultation on Great British Railways highlighted the unacceptable position that UK Government’s current plans for Great British Railways included no accountability to Wales or Welsh Ministers. We will continue to raise this matter with the UK Government.

### **Recommendation 23**

Transport for Wales should provide an update on the latest position on Metro costs in light of rising inflation and any impact this has had on the delivery timetable for each of the schemes.

#### **Response: Accept**

There have been delays to the overall programme of work on the transformation of the Core Valley Lines due to the impact of the pandemic, the on-going global material supply constraints and the insecurity caused by the Ukraine conflict.

We would be happy to set out the latest position on Metro schemes and Core Valley Lines transformation following the conclusion of the 2023-24 budget setting round.

### **Recommendation 24**

Transport for Wales should publish the latest iteration of its five-year delivery plan for all three Welsh Metro schemes.

#### **Response: Accept**

Welsh Government would welcome the opportunity to provide an update on the Metro projects being delivered across Wales and the programmes which will be delivered as a result. These programmes will form a key part of the regional transport plans for those regions which include Metro projects.

We will produce a Written Statement in the new year.

### **Recommendation 25**

Transport for Wales should provide an update on the integrated ticketing pilots and should explain the next steps.

#### **Response: Accept**

Welsh Government would welcome the opportunity to provide an update on integrated ticketing pilots. The plans we have for the T1 bus route provide an exciting opportunity to showcase rail and bus integration.

### **Recommendation 26**

Subject to discussions with the organisation, the Welsh Government should bring forward proposals for the inclusion of Transport for Wales as a statutory planning consultee for major developments.

**Response: Accept in principle**

We will investigate whether the inclusion of Transport for Wales as a statutory consultee is appropriate, whether it offers the best mechanism for influencing major developments, and if so, how this would be achieved.

## **Senedd Storm Overflow Report Update Apr-Sep 2022**

**Recommendation 2.** We must see demonstrable progress from NRW on its work to bring ‘unpermitted’ storm overflows within the regulatory regime. We expect NRW to report back to the Committee on progress no later than 6 months of the publication of this Report.

NRW wrote to Dŵr Cymru in July 2021 setting out our expectations for unpermitted assets to be brought within our regulatory regime. Discussions with Hafren Dyfrdwy have also been undertaken with the company agreeing to provide details on any unpermitted assets by the end of 2022, with the aim of working with NRW Permitting team in the new year to work up a programme for permit applications where required.

In line with our guidance, we have required water companies to undertake technical assessments and provide us with evidence confirming whether spills from these assets impact the environment, and whether they meet modern design standards. These technical assessments are required as part of the permit application process. The Permit’s conditions will then hold the operator to any required improvements.

Dŵr Cymru have commissioned a programme of investigation for all unpermitted assets. In October 2021, Dŵr Cymru provided NRW with an initial estimate that, of 174 unpermitted storm overflows identified, only 16 were estimated to be satisfactory (i.e. no environmental impact and meet modern design standards), and 40 were Emergency Overflows, operating as Storm Overflows.

In parallel, we have identified the need to review NRW’s existing Storm Overflow Classification guidance, commissioning consultants to undertake the review in February 2022, who aim to finalise this by the end of this year.

The updated guidance is a critical part of NRW’s commitment to improve our regulatory framework as identified in the Storm Overflow Roadmap developed by the Better River Quality Taskforce.

Within the guidance NRW will:

- clarify a definition of what constitutes a dry day spill
- introduce a framework for assessing spills against rainfall
- tighten the aesthetics standard by requiring all storm overflows to have 6mm screens fitted. The guidance is to be applied to both unpermitted and permitted storm overflows.

Once the revised guidance has been issued, NRW will require Dŵr Cymru and Hafren Dyfrdwy to assess and classify each asset and apply for a permit. Through

the Price review 2024 (PR24) process, NRW expects water companies in Wales to ensure all unpermitted storm overflows meet satisfactory standards over the course of the asset management plan period (2025-30). Discussions on how this will be accommodated into the National Environment Programme priorities for 2025-30 are ongoing.

**Recommendation 3.** NRW and water companies should publish annual data and/or information on the proportion of sewage spills that are not within permit conditions, which category of pollution incidents these resulted in, and whether enforcement action was taken.

In July 2022 we published our 2021 annual water company environmental performance reports for [Dŵr Cymru Welsh Water](#) and [Hafren Dyfrdwy](#). These demonstrate how the companies are performing in respect of environmental permit compliance and the delivery of capital improvement schemes. We publish these annually, and in the 2021 report we included a new section to share Event Duration Monitoring data from 2020. Pollution incidents and permit compliance activity for storm overflows are already included within the reports, but the granularity of the data does not currently meet the committee's recommendation in full.

In line with the Storm overflow roadmap actions, NRW will provide a Storm Overflow report by the end of March 2023 which will give greater detail on the approach and steps required. NRW will continue to enhance the storm overflow section of our annual water company environmental report (when published in the July 2023 performance report), and we will look to match the committee recommendation more closely, publishing this within or alongside our existing reports.

These Annual reports include performance against Environmental Performance Assessment (EPA) metrics. These are standardised metrics across England and Wales and allow the performance of the ten largest water and sewerage companies to be monitored, assessed and compared in a consistent way by the environmental regulators.

In addition, by introducing subsets of the EPA metrics, we propose to report three data sets to respond to recommendation 3:

1. Percentage of permitted storm overflows which are non-compliant with their permit
2. Number of incidents classified as Category 1-3 (i.e. High-Major, High-Significant and Low pollution incidents) caused by permitted storm overflows
3. Number of permitted storm overflows where we used our enforcement and sanctioning tools, broken down into the following categories:

- Issued advice and guidance,
- Issued a warning, enforcement action being considered (awaiting decision),
- Served notice,
- Formal caution,
- Prosecution.

NRW is continuously improving our assessment of compliance, guidance and training required by regulatory staff in assessing compliance with permit conditions. We are also working with Dŵr Cymru and Hafren Dyfrdwy in developing new metrics for inclusion within the Storm Overflow environmental performance reports. As we develop our guidance and tools as highlighted, we will develop our metrics further. This is likely to mean changes to the reporting in subsequent years with an emphasis on tighter standards and greater transparency.

**Recommendation 4.** NRW, water companies and other relevant stakeholders should develop enhanced monitoring arrangements with a view to better understanding the impact of sewage spills on receiving water. In taking this work forward, consideration should be given to the potential role of citizen science within enhanced arrangements.

As part of the Storm Overflow taskforce, and in line with the action plan published in July 2022, NRW committed to a review of the current evidence to enable a strategic monitoring programme of intermittent discharges to be established. Following the evidence review in early 2023, NRW will instigate a programme of monitoring alongside the monitoring of intermittent assets implemented by the water companies as part of the PR24 process.

Working with the water companies and Ofwat, we will ensure the funding is in place for water companies to monitor storm overflows at agreed locations to provide both greater evidence and understanding of the impact of storm overflows on the environment.

At present we do not intend to instruct water companies to monitor every asset across Wales, our monitoring and evidence programme will look at strategic locations, such as bathing waters, designated sites as well as high spilling assets. We will consider the findings before agreeing any additional requirements or expanded monitoring programme.

**Recommendation 8.** NRW should report back to the Committee on action taken as a result of the findings of Ofwat and the Environment Agency's investigations, as soon as practicable. This should include details of any review of NRW's compliance approach, and any work undertaken with, or enforcement action taken against, water companies as a result of those findings.

NRW is in close contact with both Ofwat, and Environment Agency on the current status of both investigations. No information or findings regarding Dŵr Cymru or Hafren Dyfrdwy have been shared at this stage by Ofwat given the sensitivity and legal standing investigations.

NRW will continue at pace to develop our approach to the regulation of intermittent discharges as outlined in the Storm Overflow action plan but will not hesitate to react to the findings of both investigations as information regarding Welsh companies are shared and reserves the right to take enforcement action whenever necessary.

For further information or queries, please contact  
kate.v.evans@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

## Y Pwyllgor Cyllid

### Finance Committee

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith  
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a  
Chysylltiadau Rhyngwladol  
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig  
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol  
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

12 Rhagfyr 2022

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau

### Cyllideb Ddrafft 2023-24

Ysgrifennais atoch cyn toriad yr haf mewn perthynas â gwaith ymgysylltu y Pwyllgor Cyllid cyn y Gyllideb a dadl y Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn ar Flaenoriaethau Gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gyllideb sydd i ddod. Ysgrifennaf yn awr i roi diweddariad pellach ar y gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft.

### Ymgynghoriad

Ar ddechrau tymor yr hydref, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid ymgynghoriad i geisio gwybodaeth am y Gyllideb Ddrafft ar ran yr holl Bwyllgorau. Cawsom 29 o ymatebion ac mae'r rhain ar gael ar [wefan.y.Pwyllgor.Cyllid](http://wefan.y.Pwyllgor.Cyllid).

### Amserlen

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth wedi gohirio cyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft eto eleni oherwydd Datganiad Hydref y DU a gyhoeddwyd ar 17 Tachwedd. Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) wedi cadarnhau y bydd yn cyhoeddi'r fersiynau amlinellol a manwl o'r Gyllideb Ddrafft gyda'i gilydd ar 13 Rhagfyr. Bydd y Gweinidog yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyllid ar 14 Rhagfyr am sesiwn dystiolaeth gychwynnol ar y Gyllideb Ddrafft.



## Ffocws y Gyllideb

Mae Cyllideb eleni yn debygol o ganolbwyntio ar yr argyfwng costau byw, costau ynni cynyddol a chwyddiant uchel. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi nodi nifer o feysydd yr ydym am i'r gwaith craffu ganolbwyntio arnynt, sef:

- pa effaith y mae pwysau chwyddiant yn ei chael ar gyllidebau refeniw a chyfalaf a sut mae hyn wedi newid fforddiadwyedd cynlluniau blaenorol;
- sut y dylid targedu adnoddau i gefnogi adferiad economaidd a pha sectorau yn benodol y mae angen eu blaenoriaethu;
- i ba raddau y dylid blaenoriaethu lliniaru newid yn yr hinsawdd wrth gefnogi adferiad economaidd;
- sut mae dyraniadau cyllideb yn cefnogi'r dyheadau yng nghynllun Sero Net Cymru;
- polisiau Llywodraeth Cymru i leihau tlodi ac effaith argyfwng costau byw ac anghydraddoldeb rhywiol;
- y dull gweithredu o ran gwariant ataliol, a sut y cynrychiolir hyn wrth ddyrannu adnoddau (gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru'r galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar);
- cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a gweddnewid gwasanaethau;
- sut y mae tystiolaeth yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o ran pennu blaenoriaethau a dyrannu'r gyllideb;
- sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau trethu a benthyca;
- cefnogaeth i fusnesau, twf economaidd ac amaethyddiaeth ar ôl cyfnod pontio'r UE;
- beth yw'r cyfleoedd allweddol i fuddsoddiad y Llywodraeth gefnogi 'ailgodi'n gryfach' (h.y. cefnogi economi a gwasanaethau cyhoeddus sy'n cyflawni'n well yn erbyn y nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).

Yn ogystal, nodwyd y meysydd canlynol fel blaenoriaethau yn ystod digwyddiadau rhanddeiliaid ac ymgysylltu'r Pwyllgor yn ystod tymor yr haf:

- mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thlodi – beth yw'r blaenoriaethau a pha mor addas yw'r cymorth presennol o ystyried cyfran y bobl sy'n byw mewn tlodi cymharol o ran incwm, yng Nghymru?

- Rhestrau aros y GIG – a oes tystiolaeth o gynllun cadarn, wedi'i ategu gan adnoddau digonol, i fynd i'r afael â'r nifer uchaf erioed o bobl yng Nghymru sydd ar restrau aros ar gyfer triniaeth gan y GIG sydd wedi'i chynllunio neu nad yw'n fater brys, a yw'n amlwg bod hyn yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru?
- plant a phobl ifanc – a yw digon o arian yn cael ei ddarparu a'i gyfeirio'n briodol i gefnogi plant a phobl ifanc y mae'r pandemig wedi effeithio ar eu haddysg, eu datblygiad, eu hiechyd meddwl a'u llesiant?
- materion yn ymwneud â chynaliadwyedd hirdymor y GIG, gofal cymdeithasol, addysg bellach ac uwch, llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus eraill, gan gynnwys sut y gallant wneud arbedion effeithlonrwydd a thrawsnewid y ffordd y maent yn darparu gwasanaethau.
- yr economi a seilwaith – a yw'r cynlluniau cywir yn cael eu blaenoriaethu i gefnogi busnesau ac economi Cymru, sut mae Llywodraeth Cymru yn galluogi Cymru i ffynnu ar ôl COVID-19 a Brexit?
- sut y dylai'r Gyllideb fynd i'r afael ag anghenion pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig a datblygu economïau gwledig?
- creu Cymru wyrddach – a yw cynlluniau Llywodraeth Cymru i symud i economi wyrddach yn glir ac a oes digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau? A oes angen diwygio'r cynlluniau hyn i adlewyrchu'r brys cynyddol i leihau'r ddibyniaeth ar nwy ac olew o ystyried y rhyfel yn Wcráin?
- y trydydd sector a gwirfoddoli – sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi sefydliadau'r trydydd sector wrth iddynt fynd i'r afael â heriau ariannol a galw cynyddol am rai gwasanaethau o ganlyniad i'r argyfwng costau byw a'r pandemig?
- trethiant - sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio ei phwerau codi trethi a benthyca ac a ydych yn teimlo y dylid ehangu'r pwerau hyn, eu cadw'r un fath neu eu lleihau?

Gobeithiwn y bydd yr [ymgyngoriad](#) a'r [gwaith ymgysylltu](#) yn ategu ac yn llywio gwaith y Pwyllgorau polisi, a byddwn yn eich annog i ddefnyddio rhai o'r meysydd a amlinellir uchod fel ffocws ar gyfer eich gwaith craffu ar y gyllideb.

## Protocol Proses y Gyllideb

Fel y crybwyllwyd, mae Llywodraeth Cymru wedi gohirio cyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft eto eleni. Dyma'r bedwaredd flwyddyn yn olynol y bu oedi, sydd wedi arwain at gyfnodau craffu cwtogedig i'r Senedd. Mae'r Pwyllgor Cyllid o'r farn, felly, ei bod yn bryd adolygu [Protocol Proses y Gyllideb](#) a gyflwynwyd yn 2017. Mae gan y protocol lawer o fanteision, ond credwn fod angen ei ddiweddarau i

adlewyrchu arferion sefydledig a phrofiadau diweddar, yn enwedig y duedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf i Lywodraeth Cymru ohirio cyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft oherwydd amseriad digwyddiadau cyllidol y DU. Rwyf [wedi ysgrifennu](#) at y Gweinidog yn ddiweddar yn cynnig newidiadau yn y meysydd a ganlyn:

- ffurfioli gwaith ymgysylltu cyn y Gyllideb a gwaith craffu'r Pwyllgor; a
- darparu mwy o sicrwydd mewn perthynas ag amseriad y Gyllideb Ddrafft.

Mae'r Gweinidog eisoes wedi mynegi parodrwydd i ymgysylltu â'r Pwyllgor Cyllid ar y mater hwn, ac rydym yn gobeithio y bydd yn barnu bod y newidiadau hyn yn gymesur. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Gadeiryddion y Pwyllgorau ar y mater hwn unwaith y byddaf wedi cael ymateb y Gweinidog. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gobeithio y gellir mynd i'r afael â'r newidiadau hyn a'u rhoi ar waith cyn cylch cyllideb 2024-25.

Os oes gennych gwestiynau am unrhyw agwedd ar broses y Gyllideb Ddrafft, mae croeso i chi gysylltu â mi neu ag Owain Roberts, Clerc y Pwyllgor Cyllid, ar 0300 200 6372 neu yn [seneddcyllid@senedd.cymru](mailto:seneddcyllid@senedd.cymru).

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Julie James AS/MS  
Y Gweinidog Newid Hinsawdd  
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llyr Gruffydd AS  
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

13 Rhagfyr 2022

Annwyl Llyr,

Rwy'n ysgrifennu ynglŷn ag un o argymhellion y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn ei adroddiad ar Graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru – 2022-23:

**Argymhelliad 2.** *Dylai Llywodraeth Cymru roi esboniad cynhwysfawr o'r gwaith y mae'n ei wneud i ddenu buddsoddiad preifat i dalu'r gost o gyrraedd sefyllfa Sero Net.*

Yn fy ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar 7 Mawrth, derbyniais yr argymhelliad hwn ac ymrwymais i ddarparu diweddariad ar y cwestiwn hwn ochr yn ochr â'n datganiad cynnydd cyntaf ar ddatgarboneiddio yn ddiweddarach eleni. Mae fy swyddogion wedi paratoi'r papur sydd wedi'i atodi er mwyn gwireddu'r ymrwymiad hwn.

Gobeithio bydd y papur hwn yn dderbyniol i chi, a hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith am eich adroddiad.

Yn gywir

Julie James AS  
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## **Atodiad – Sut mae Llywodraeth Cymru yn ysgogi buddsoddiad yn y sector preifat**

### **Cyflwyniad**

Amlinellodd Cymru Sero Net<sup>1</sup> yr amcangyfrifon diweddaraf o'r lefel o fuddsoddiad ychwanegol sydd ei angen er mwyn sicrhau sero net yng Nghymru, yn seiliedig ar ddadansoddiad gan y Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd (CCC 2020)<sup>2</sup>. Mae'r amcangyfrifon hyn yn awgrymu bod angen cynyddu buddsoddiad yn sylweddol wrth bontio i sero net dros y tymor byr, canolog a hirdymor er mwyn cyrraedd targedau allyriadau statudol yn y dyfodol.

Er bod gan y sector cyhoeddus rôl bwysig iawn i'w chwarae wrth ariannu rhywfaint o'r gwaith pontio i sero net, disgwylir i'r sector preifat wneud y rhan fwyaf o'r buddsoddiad (CCC 2020). Er enghraifft, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) (2021)<sup>3</sup> wedi cynhyrchu senarios er mwyn rhagweld y gost o bontio i sero net i'r sector cyhoeddus yn y DU. Roedd amcangyfrif canolog y Swyddfa yn rhagdybio y byddai'r sector cyhoeddus yn talu ychydig dros 25% o'r gost hyd at 2050, gan adael i'r sector preifat dalu bron i 75% o'r gost.

Mae camau gweithredu'r Llywodraeth yn gallu cael dylanwad mawr ar lefelau buddsoddi yn y sector preifat. Gall llywodraethau sbarduno buddsoddiad yn y sector preifat mewn sawl ffordd, er enghraifft trwy lunio cymhellion (fel trethi ar lygru a chymorthdaliadau ar gyfer technoleg carbon isel), dileu rhwystrau i fuddsoddi, darparu gwybodaeth i fynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth, polisiau gorchymyn a rheoli (fel rheoleiddio), a buddsoddi mewn ymchwil a datblygu er mwyn datblygu technolegau newydd a gostwng prisiau yn y dyfodol.

Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd wedi argymhell bod angen darparu crynodeb o'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ysgogi buddsoddiad yn y sector preifat er mwyn talu'r gost o bontio i Sero Net. Er mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am lawer o'r prif ysgogiadau i ddenu buddsoddiad preifat, mae gan Lywodraeth Cymru adnoddau amrywiol i hybu a hyrwyddo buddsoddiad preifat. Mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd wedi derbyn yr argymhelliad ac isod mae'n nodi rhai enghreifftiau o sut rydym yn ysgogi buddsoddiad.

### **Enghreifftiau o weithredu gan Lywodraeth Cymru i ysgogi buddsoddiad yn y sector preifat.**

#### **Amaethyddiaeth**

- Ym mis Ebrill 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn cymorth gwerth dros £227 miliwn dros y tair blynedd ariannol nesaf er mwyn cefnogi gwydnwch yr economi wledig, gan gynnwys cymorth ar gyfer busnesau fferm i ymateb i heriau newid hinsawdd. Gan ddefnyddio'r gyllideb hon, trwy becyn o **gynlluniau pontio**, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnesau fferm i wella eu perfformiad amgylcheddol ac ymateb i heriau newid hinsawdd.
- Mae buddsoddiad mewn seilwaith a chymorth ar gyfer technoleg a chyfarpar newydd yn cael ei ariannu hyd at uchafswm o 40% o gostau cymwys. Felly, mae'n rhaid i fusnesau fferm ddarparu'r **arian cyfatebol** i fod yn gymwys i gael cymorth (yn yr achos hwn, ariannu 60% o gostau'r prosiect). Yn 2022, bydd ein cynlluniau yn cynnig cymorth gwerth £23m a fydd yn sbarduno gwerth £57.5m o fuddsoddiad yn y sector preifat, gan ragdybio bod y gyllideb yn cael ei defnyddio'n llawn.

<sup>1</sup> [Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 \(2021-2025\)](#)

<sup>2</sup> [Chwchedd Cyllideb Garbon – Y Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd \(theccc.org.uk\)](#)

<sup>3</sup> [Adroddiad risgiau cyllidol – Gorffennaf 2021 – Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol \(obr.uk\)](#)

- Hefyd, rydym wedi darparu cyfres o **raglenni buddsoddiad cyfatebol** eraill i gymell busnesau fferm i fuddsoddi yn eu perfformiad amgylcheddol a'i wella. Er enghraifft, mae'r **Grant Busnes i Ffermydd** (cyllid sy'n cael ei ddarparu gan Raglen Datblygu Gwledig yr UE) wedi cynorthwyo ffermydd i fuddsoddi mewn cyfarpar a pheiriannau newydd er mwyn hybu effeithlonrwydd ffermydd a lleihau allyriadau ar y fferm. Yn ogystal, mae'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy wedi darparu cyfraniadau tuag at fuddsoddiad cyfalaf mewn cyfarpar a pheiriannau sy'n lleihau effeithiau llygredd amaethyddol, gan ddiogelu gwaith rheoli maetholion, a hybu ansawdd y dŵr, yr aer a'r pridd.
- Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno **rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol**<sup>4</sup>, ac mae'n debygol bod rhai o'r mesurau rheoleiddiedig hyn wedi arwain at leihau allyriadau ocsid nitraidd. Bydd y rheoliadau hyn yn cael eu gweithredu'n llawn erbyn mis Awst 2024, a byddant yn ysgogi ffermydd i fuddsoddi mewn seilwaith ar y fferm i leihau llygredd amaethyddol ac allyriadau ocsid nitraidd. Hefyd, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ariannol i ffermydd ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith ar y fferm, gan dalu 40% o fuddsoddiad cyfatebol y sector preifat, er mwyn helpu ffermydd i leihau llygredd amaethyddol.
- Mae **Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru** yn ysgogi buddsoddiad mewn **gwella iechyd anifeiliaid** yng Nghymru, gan wella effeithlonrwydd cynhyrchu a lleihau allyriadau ar ffermydd. Mae'r fframwaith yn cefnogi ymyriadau milfeddygol ataliol gan gynnwys cynllunio iechyd anifeiliaid, mesurau bioddiogelwch a brechiadau. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymhellion eraill ar gyfer buddsoddiad preifat mewn iechyd anifeiliaid, er enghraifft wrth ddylanwadu ar safonau gwarant fferm a chynnwys ystyriaethau iechyd anifeiliaid (e.e. rhaglenni dileu clefydau) yn ein grantiau cymorth a'n rhaglenni cyfnewid gwybodaeth.
- Yn olaf, mae gennym sawl cynllun sydd wedi'u dylunio i **ddarparu gwybodaeth a chynnig cymorth** i ffermydd, ac mewn sawl achos, gall hynny arwain at hybu buddsoddiad mewn meysydd sy'n lleihau allyriadau amaethyddol ar y fferm. Un enghraifft yw Cyswllt Ffermio, rhaglen fawr sy'n darparu cymorth busnes annibynnol, â chymhorthdal, wedi'i deilwra yn ymwneud â sut i sicrhau'r canlyniadau gorau gan dda byw, sydd yn ei dro yn helpu i leihau allyriadau. Yn ogystal, mae gan Cyswllt Ffermio adnodd rhyngweithiol sydd wedi'i ddatblygu i ddangos sut y gallai fferm nodweddiadol yng Nghymru fynd ati i leihau allyriadau a buddsoddi mewn arferion ffermio allyriadau isel wrth gynyddu proffidioldeb.

#### Defnydd tir:

- Sefydlwyd y **Gweithgor Cyllid Coetiroedd** yn dilyn argymhelliad gan ymarferiad plannu coed "archwiliad dwfn" o dan arweiniad y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd. Mae'r grŵp yn cynnwys arbenigwyr coedwigaeth, cyllid ac economeg sy'n cael eu cefnogi gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Nod y gweithgor yw nodi modelau i hyrwyddo buddsoddiad o'r tu allan i'r Llywodraeth mewn plannu coed yng Nghymru sy'n osgoi rhoi cymunedau gwledig o dan anfantais ac amharu ar batrymau presennol perchnogaeth tir. Mae argymhellion y grŵp wedi eu cyhoeddi<sup>5</sup> ac mae gwaith i'w gweithredu yn parhau. Bydd y rhan fwyaf o waith creu coetiroedd dros y 3 blynedd nesaf yn cael ei ariannu trwy gynlluniau grant Llywodraeth Cymru tra bod buddsoddiad preifat addas yn cael ei sicrhau. Fodd bynnag, bydd prosiectau peilot i brofi dulliau o fuddsoddiad preifat yn cael eu cyflwyno yn y tymor byr.

<sup>4</sup> [Rheoliadau Adnoddau Dŵr \(Rheoli Llygredd Amaethyddol\) \(Cymru\) 2021: canllawiau ar gyfer ffermydd a thirfeddianwyr | LLYW. CYMRU](#)

<sup>5</sup> [Gweithgor Cyllid Coetiroedd: argymhellion ar gyfer creu coetiroedd \[HTML\] | LLYW. CYMRU](#)

## Adeiladau preswyl:

- Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno **Rheoliadau Adeiladu Rhan L<sup>6</sup>** newydd, sy'n gosod safonau gofynnol ar gyfer tai a adeiledir o'r newydd ac addasu tai. Un o ofynion y rheoliad yw gostyngiad o 37% mewn allyriadau carbon (o'i gymharu â'r safonau presennol) ar gyfer anheddau newydd o ddiwedd 2022 ymlaen. Er mwyn cydymffurfio â'r safonau gwell hyn, bydd angen i'r sector preifat hybu buddsoddiad mewn cartrefi newydd, a sicrhau manteision hirdymor trwy leihau costau gweithredu wrth wella effeithlonrwydd. Byddwn yn gwneud newidiadau eraill i'r Rheoliadau Adeiladu yn 2025, gan godi safonau er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gartrefi newydd allyrru 75% yn llai o garbon deuocsid na chartrefi a adeiladwyd yn unol â'r gofynion presennol. Hefyd, rydym yn creu galw am gartrefi a adeiledir o'r newydd sy'n bodloni safonau effeithlonrwydd ynni ac adeiladu newydd trwy gyflwyno cynllun **Cymorth i Brynu - Cymru<sup>7</sup>**, gan ddarparu benthyciadau rhannu ecwiti i brynwyr cymwys cartrefi a adeiledir o'r newydd.
- Cynhaliwyd ymgynghoriad ar **Safonau Ansawdd Tai Cymru<sup>8</sup> 2023** diwygiedig yn ddiweddar, a fyddai angen graddfeydd Gweithdrefn Asesu Safonol Uwch (SAP) uwch a gwelliannau effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi cymdeithasol presennol. Mae'r safonau'n cynnig pwyslais ar egwyddorion adeiladwaith yn gyntaf, a byddent yn ceisio dod â'r holl dai cymdeithasol mor agos â phosibl at EPC A neu safon gyfatebol o fewn degawd, yn ogystal â gosod targedau eraill ar gyfer datgarboneiddio cartrefi yn y dyfodol. Mae rhywfaint o arian cyhoeddus ar gael i gynorthwyo Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i fodloni'r safonau newydd hyn, ond bydd angen buddsoddiad preifat sylweddol gan landlordiaid a sefydliadau ariannol hefyd. Mae ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried ar hyn o bryd ac mae'n bosibl y bydd ffurf derfynol y safon yn cael ei haddasu o ganlyniad i'r adborth hwn.
- Mae'r **Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio<sup>9</sup>** yn darparu cyllid i gynorthwyo Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac awdurdodau lleol sydd â stoc dai i ôl-osod tai cymdeithasol trwy ariannu buddsoddiadau ôl-osod yn rhannol. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £70m yn ystod y tymor llywodraethu hwn, ac mae £150m arall wedi'i gynllunio dros weddill y tymor, gan ddenu lefelau sylweddol o fuddsoddiad preifat hefyd. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, rydym yn gobeithio cynnig cymorth grant i bob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig trwy ddull sy'n cael ei ariannu gan fformiwla, ac rydym yn gobeithio ehangu ORP i'r sector rhentu preifat yn y dyfodol.

## Diwydiant a Busnes:

- Mae **Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (UK ETS)** yn gynllun 'cario a masnachu', a'r rhai sy'n cyfrannu ato yw'r allyrwyr carbon mwyaf (diwydiant trwm, generaduron sy'n rhedeg ar nwy a hedfanaeth). Mae'n mabwysiadu egwyddor 'y llygrwr sy'n talu', lle mae'n rhaid i gyfranogwyr ildio lwfans ar gyfer pob tunnell o allyriadau carbon sy'n cael eu hallyrru. Mae'r cynllun yn gweithio trwy osod terfyn ar gyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwyr sy'n cael eu caniatáu gan holl gyfranogwyr cynllun y DU. Mae'r terfyn yn lleihau dros amser er mwyn helpu i leihau cyfanswm yr allyriadau. Mae'r terfyn yn cael ei drosi'n lwfansau allyriadau masnachadwy, gan roi'r hawl i ddeiliaid allyrru un dunnell gyfwerth â CO<sub>2</sub> fesul lwfans. Trwy gymhwyso pris carbon a chaniatáu masnachu, lle mae cyfranogwyr yn gallu buddsoddi i ddatgarboneiddio am lai o gost na phrynu lwfansau, byddant yn

<sup>6</sup> [Canllawiau ar y rheoliadau adeiladu: rhan L \(arbed tanwydd ac ynni\) | LLYW. CYMRU](#)

<sup>7</sup> [Cymorth i Brynu – Cymru | LLYW. CYMRU](#)

<sup>8</sup> [Safon ansawdd tai Cymru | LLYW. CYMRU](#)

<sup>9</sup> [Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio | LLYW. CYMRU](#)

gwneud hynny. Mae hyn yn sicrhau bod y broses o ddatgarboneiddio yn cael ei gwireddu am y gost isaf ar draws yr holl gynllun.

- Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno **Gweithdai Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio** di-dâl **sydd wedi'u teilwra i'r Diwydiant Bwyd a Diod**. Mae busnesau sydd wedi mynychu'r Cwrs Cynaliadwyedd hefyd yn gymwys i wneud cais am gyllid hyd at £15,000 i gwblhau astudiaethau dichonoldeb er mwyn archwilio'r atebion gorau ar gyfer eu busnes penodol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Trwy ddarparu'r cymorth hwn, bydd gan fusnesau ddealltwriaeth well o'r buddsoddiadau maen nhw'n gallu eu gwneud i leihau allyriadau, gan sicrhau'r proffidioldeb mwyaf.
- Ar ôl cyhoeddi **gweledigaeth gyffredin ar gyfer y Sector Manwerthu**<sup>10</sup>, rydym yn cyd-gynhyrchu Cynllun Cyflawni gyda'n Fforwm Manwerthu sy'n cynnwys cynrychiolwyr o undebau llafur a sefydliadau eraill sy'n cynrychioli busnesau. Y bwriad yw sicrhau bod y Cynllun Cyflawni yn canolbwyntio ar sawl maes allweddol, gan gynnwys Datgarboneiddio. Bydd y cynllun hwn a'r broses ymgysylltu yn darparu cyngor ac yn hyrwyddo buddsoddiad effeithiol mewn mesurau sy'n arwain at leihau defnydd ynni ac allyriadau nwyon tŷ gwydr.
- Mae **Diwydiant Sero Net Cymru (NZIWW)**<sup>11</sup> yn endid newydd sydd wedi'i greu i sicrhau cydweithio hanfodol rhwng diwydiannau, y byd academiaidd a'r llywodraeth sydd ei angen ar y daith tuag at sero net. Bydd NZIWW yn canolbwyntio ar dde Cymru i ddechrau trwy ddarparu llywodraethiant i Glwstwr Diwydiannol De Cymru (SWIC) ond bydd yn gallu ehangu i gynnwys canolbarth a gogledd Cymru rywbryd yn y dyfodol, ar sail gofyniad y diwydiant. Bydd NZIWW yn gweithio gyda grŵp presennol o ddeugain o bartneriaid busnes ac academiaidd sy'n gweithredu mewn ystod eang o ddiwydiannau ynni-ddwys i'w helpu i sicrhau Sero Net. Bydd hyn yn cynnwys galluogi'r diwydiant i archwilio cyfleoedd newydd ar gyfer twf economaidd trwy ddod yn arweinydd byd-eang ym maes gweithgynhyrchu carbon isel – gan ddatblygu cryfderau presennol Cymru; Helpu i ddatblygu Economi Gylchol yng Nghymru yn y dyfodol; Ysgogi ac angori buddsoddiadau newydd i greu a chadw swyddi sgiliau uchel; Ymgysylltu â rhanddeiliaid i gefnogi buddsoddiad cyhoeddus a phreifat.
- Mae'r **Cynllun Gweithredu Gweithgynhyrchu**<sup>12</sup> yn sbarduno dull mwy cydweithredol o gynorthwyo'r sector gweithgynhyrchu i ymateb i heriau mawr fel newid yn yr hinsawdd a'r angen i ddatgarboneiddio. Mae'n hyrwyddo arferion gorau ac yn cynorthwyo diwydiant gydag ystod o weithgareddau i ymgorffori a buddsoddi mewn technolegau diwydiant 4.0 i fod yn fwy effeithlon a lleihau eu defnydd o garbon.
- Mae **Cronfa Dyfodol yr Economi** yn cyfuno nifer o ffrydiau ariannu presennol er mwyn cynorthwyo busnesau i fuddsoddi yn un o'r pum Maes Gweithredu (a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi), ac un ohonynt yw datgarboneiddio.<sup>1</sup> Bydd y gronfa yn cynorthwyo busnesau i fuddsoddi mewn meysydd a fydd yn sbarduno'r broses o bontio i sero net, megis technolegau newydd sy'n lleihau ôl troed carbon nwyddau a gwasanaethau, ac yn buddsoddi mewn ymchwil a datblygu ar gyfer technolegau neu danwyddau carbon isel newydd.
- Cyhoeddwyd adroddiad ar **Rwydwaith Casglu, Defnyddio a Storio Carbon i Gymru**<sup>13</sup> ym mis Hydref 2021, ochr yn ochr ag adroddiad atodol<sup>14</sup> ym mis Mehefin 2022. Mae'r

<sup>10</sup> [Gweledigaeth strategol a rennir ar gyfer y sector manwerthu \[HTML\] | LLYW. CYMRU](#)

<sup>11</sup> [Sefydlu Diwydiant Sero Net Cymru i gefnogi datgarboneiddio diwydiant Cymru | LLYW. CYMRU](#)

<sup>12</sup> [Datganiad Ysgrifenedig: Cynllun Gweithredu Gweithgynhyrchu i Gymru \(25 Chwefror 2021\) | LLYW. CYMRU](#)

<sup>13</sup> [Rhwydwaith casglu, defnyddio a storio carbon i Gymru: adrodd | LLYW. CYMRU](#)

<sup>14</sup> [Dadansoddiad sensitifrwydd strategaeth dal, defnyddio a storio carbon \(CCUS\): adroddiad atodol | LLYW. CYMRU](#)



adroddiadau hyn yn dangos bod y Rhwydwaith yn opsiwn technegol ymarferol i gynorthwyo Cymru i gyrraedd y targed Sero Net. Wedi cyhoeddi'r adroddiad diweddaraf, rydym yn ystyried y camau gweithredu a'r argymhellion, yn ogystal ag ymgysylltu â rhanddeiliaid diwydiannol ar y camau nesaf, gan gynnwys ystyried y seilwaith posib sydd ei angen i ddefnyddio'r dechnoleg yng Nghymru.

### Trafnidiaeth:

- Er mwyn cymell y defnydd o gerbydau trydan yng Nghymru, a buddsoddiad ynddynt, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ddarparu rhwydwaith o **fannau gwefru cerbydau trydan** ar y rhwydwaith cefnffordd strategol bob 20 milltir ledled Cymru erbyn 2025, a bydd yn sicrhau bod o leiaf un man gwefru sy'n hygyrch i'r cyhoedd ar gyfer pob 7 - 11 o geir a faniau trydan yng Nghymru.
- Hefyd, rydym wedi ymrwmo i ddarparu **fflyd o dacsis a llogi preifat heb unrhyw allyriadau pibellau egsôst erbyn 2028**. Er mai'r fflyd llogi preifat a fydd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r buddsoddiad, bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r newid hwn mewn sawl ffordd, er enghraifft trwy gynnal cynllun 'profi cyn prynu', datblygu cynllun prydles ategol ar gyfer gyrwyr sydd â mynediad cyfyngedig at gyllid, a darparu cymhellion ariannol eraill fel grantiau cyfalaf, benthyciadau a pheccynnau cymorth er mwyn cymell buddsoddiad mewn cerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn heb unrhyw allyriadau.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno targedau ar gyfer **fflyd o fysiau allyriadau sero** erbyn 2028 - 2035, gyda'r 50% o fysiau gwasanaeth sy'n achosi'r llygredd mwyaf yn cael eu disodli gan fysiau allyriadau sero erbyn 2028. Byddwn yn cefnogi'r newid hwn, er enghraifft trwy ddarparu arian trwy'r Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau, ond bydd angen buddsoddiad preifat sylweddol hefyd i ddatgarboneiddio'r fflyd o fysiau.
- Yn unol â'n cymhwysedd, byddwn yn treialu technolegau newydd ar gyfer **cerbydau nwyddau trwm allyriadau sero**, gan ddefnyddio'r cymhellion ariannol sydd ar gael gan Lywodraeth y DU. Hefyd, byddwn yn cefnogi'r gwaith arloesi hwn trwy gysylltu treialon ar gyfer technolegau newydd â chyfleoedd sy'n cael eu datblygu ar gyfer cynhyrchu ynni glân, fel Hwb Hydrogen Caergybi.

### Cynhyrchu trydan a gwres:

- Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r gwaith o **ddatblygu cynlluniau ledled Cymru, ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol**<sup>15</sup> i amlinellu'r newidiadau sydd eu hangen i ddatgarboneiddio'r system ynni, ym meysydd pŵer, gwres a thrafnidiaeth. Bydd y cynlluniau hyn yn darparu tystiolaeth a fydd yn cynhyrchu prosiectau amrywiol ac yn ychwanegu hyder ar gyfer buddsoddwyr. Byddant yn galluogi rhanbarthau ac awdurdodau lleol i ddatblygu partneriaethau gyda'r sector preifat i fuddsoddi yn y prosiectau hyn. Mae'r pedair strategaeth ynni ranbarthol wedi amlinellu amcangyfrif o lefel y buddsoddiad sydd ei angen dan eu cynlluniau hyd at 2035.
- Ers mis Ebrill 2019, mae **pwerau cydsynio** Gweinidogion Cymru wedi eu hymestyn o'r terfyn uchaf o 50MW ar y tir i 350MW ar y tir ac ar y môr (heb gynnwys gwynt ar y tir - mae cydsyniad ar gyfer hynny eisoes wedi'i ddatganoli). Byddwn yn parhau i gynyddu datblygiadau ynni adnewyddadwy trwy ein cyfundrefn gynllunio oddi mewn i fframwaith Cymru'r Dyfodol, a byddwn yn gwella ac uno'r broses gydsynio ar gyfer prosiectau cynhyrchu ynni yng Nghymru er mwyn darparu trefn gydsynio gyflymach a mwy cymesur ar gyfer y seilwaith ynni.

---

<sup>15</sup>Gellir gweld cynlluniau datblygu yma: [Ynni carbon isel | Is-bwnc | LLYW. CYMRU](#)

- Mae llawer o'r pwerau a'r mecanweithiau ariannol ar gyfer lleihau allyriadau yn y sector ynni yn eiddo i Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Y prif rwystr i ddefnyddio ynni adnewyddadwy yng Nghymru (a gweddill y DU) yw diffyg llwybr cyson a rhagweladwy i'r farchnad. Felly, rydym yn gofyn i Lywodraeth y DU am ddull gweithredu hirdymor sy'n cefnogi ystod eang o dechnolegau adnewyddadwy, gan greu marchnad gynaliadwy ar gyfer yr ystod eang o dechnolegau gwres carbon isel.

### Y sector cyhoeddus:

